14 Gorffennaf 2021

Arholiadau Aelodaeth Testun - Hydref 2021

Dim ond yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn a gaiff eu cynnal ym mis Hydref 2021.

Golyga hyn na fyddwn yn cynnig y cyfle i sefyll yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Sylfaenol y tro hwn. Sylweddolwn y bydd y penderfyniad hwn yn siom fawr i lawer iawn o ddarpar ymgeiswyr sydd yn awyddus i sefyll yr arholiadau hyn.

Rhaid cymryd y penderfyniad hwn yn awr am ei bod yn amser dechrau ar y gwaith o baratoi ar gyfer arholiadau mis Hydref. Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, ni wyddom eto beth yn union fydd y rheolau mewn sefydliadau addysgiadol y tymor nesaf. Oherwydd hynny, a'r gohebu a fu rhyngom â'r canolfannau arholi, mae'n ymddangos y bydd yn rhaid cyfyngu ar y niferoedd y gallwn eu caniatáu yn yr arholiadau.

Felly, ac os bydd popeth o'n plaid, cynhelir yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn, cyfieithu i'r Gymraeg ac i'r Saesneg, yn unig, ddydd Sadwrn, 9 Hydref 2021, yn y canolfannau arholi arferol: Coleg Ceredigion, Aberystwyth; Adeilad Julian Hodge, Prifysgol Caerdydd; a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon, ger Caernarfon. Rhoddir blaenoriaeth i aelodau'r Gymdeithas, ac yna i aelodau'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt a'r unigolion hynny a fu'n dilyn e-weithdy cyfieithu ar y lefel Gyflawn yn 2020 a 2021.

Bydd y trefniadau cofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn yn wahanol i'r trefniadau arferol. Amlinellir y rhain yn Llawlyfr Arholiadau 2021 (Cyflawn) a gaiff ei gyhoeddi ar 1 Medi 2021. O'r diwrnod hwnnw, gwahoddir darpar ymgeiswyr i fynegi diddordeb mewn sefyll yr arholiadau. Ni fyddwn yn cofrestru unrhyw ymgeiswyr tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb, sef dydd Mercher, 22 Medi 2021, am 5pm. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau ar ôl yr amser hwn.

Rhoddodd y Gymdeithas ystyriaeth deg i ddichonoldeb cynnal yr arholiadau o bell/ar-lein. Archwiliwyd nifer o bosibiliadau a chynhaliwyd cyfarfodydd â sawl sefydliad. Nid oedd yr un o'r platfformau oedd yn caniatáu goruchwylio o bell yn addas yn bennaf oherwydd fod nifer ein hymgeiswyr yn rhy fach i wneud eu defnyddio yn gost effeithiol. Gan na fu'n bosib dod o hyd i ateb boddhaol, un a fyddai'n sicrhau y gallem roi chwarae teg i bob ymgeisydd, rhoddwyd y syniad o'r neilltu.

Y cynllun arfaethedig ar gyfer 2022, eto'n dibynnu ar yr amgylchiadau, yw cynnal yr Arholiadau Aelodaeth Testun yn unol â'r trefniadau arferol ym mis Ebrill ond ar ddiwrnodau gwahanol i'w gilydd; ac yna ym mis Hydref dychwelyd at y drefn arferol a chynnal yr arholiadau ar ddydd Sadwrn cynta'r mis. Gwneir cyhoeddiad ynghylch hyn ym mis Ionawr 2022.

I grynhoi, cynhelir yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefel Gyflawn yn unig ar 9 Hydref 2021. Cyhoeddir Llawlyfr Arholiadau 2021 (Cyflawn) ar 1 Medi 2021 a rhaid mynegi diddordeb mewn sefyll yr arholiadau cyn 22 Medi 2021.